

Yn ôl yr ysgrythurau

Croeso i'n myfyrdod ar gyfer Dydd Gwener y Groglith.

Nid fi fydd yr unig fydd yn ei gweld hi'n chwith y bore 'ma. Wedi'r cyfan, pe baem yn byw mewn amseroedd pan oeddem yn rhydd i fynd a dod, byddem wedi ymgynnull yn ôl ein harfer yng Nghapel Seion ac wedi mwynhau, wedi'r gwasanaeth, y croeso cynnes, a'r byns, a'r baned, a'r gwmniaeth.

Ond nid fel 'na fydd hi eleni. Er bydd croeso i chi ffonio rhywun sydd heb declyn ffôn clyfar, neu gyfrifiadur fyddai wedi eu galluogi i wrando gyda ni, er mwyn rhannu'r darlleniadau a'r myfyrdod hefo nhw, dros baned.

Ein harfer yn y myfyrdodau ar fore Gwener y Groglith yw canu, darllen, myfyrio a chael ysbaid o dawelwch. Er nad yw hi'n bosib i ni ddilyn y drefn yn gaeth eleni, fe fydd ein darlleniadau yn dilyn ei gilydd. Fe fydd tair adran, a byddwn yn nodi'n glir ddiwedd pob adran. Os ydych am oedi bryd hynny a chael egwyl o fyfyrdod tawel mae croeso i chi wneud hynny cyn ailafael.

Bydd hefyd yn ddefnyddiol iawn i chi os bydd Beibl gennyh o'ch blaenau er mwyn i ni fedru gweld gyda'n gilydd rediad y darlleniad.

Canolbwynt ein darlleniadau a'n myfyrdodau heddiw fydd Salm 22. A bydd yn amlwg i bob un ohonom sydd wedi darllen neu sydd yn gyfarwydd â hanes y Croeshoeliad fod Mathew – a'r efengylau eraill mewn gwahanol ffyrdd – yn gweld y croeshoeliad drwy sbectol Salm 22 a bod geiriau'r Salm yn cael eu gwireddu a'u cyflawni yn Iesu Grist.

Gweddi

Dduw, hollalluog, rwyt ti wedi caru'n byd gymaint nes i ti ddod yn dy Fab Iesu Grist yn faban bychan – er ein mwyn. Buost yn ufudd ac yn ffyddlon hyd angau – er ein mwyn. Yn yr ardd bodlonaist yfed cwpan cyfiawnder Duw – er ein mwyn. Yn awr, fel oen Duw, fe gofiwn i Ti roi dy hun dros bechod y byd a dioddef drosom ni. Caniatâ i ni heddiw, drwy'r Ysbryd Glân, gael golwg ar ei wedd, dywysog bywyd, fel y bydd i uchelderau mawr ei Dduwdod, a dyfnderoedd ei ufudd-dod beri ein bod yn synnu o'r newydd. A hynny er dy ogoniant di Dad.

Emyn 504: 'Gwêl ar y croesbren acw'

Gwêl ar y croesbren acw
gyfiawnder mawr y ne',
doethineb a thrugaredd
yn gorwedd mewn un lle,
a chariad anfesurrol
yn awr i gyd yn un
fel afon fawr, lifeiriol
yn rhedeg at y dyn.

Cynefin iawn â dolur
a Gŵr gofidus fu,
er dwyn tangnefedd rhyfedd
ac iechyd llawn i ni;
fe ddygodd ein doluriau
a'n clwyfau bob yr un,
trwy rym tragwyddol gariad,
o fewn ei gorff ei hun.

Ac yna atgyfododd
yn ogoneddus iawn,
daeth bore teg a hyfryd
'n ôl stormus, ddu brynhawn:
fe dorrodd rym yr angau,
agorodd ddrysau'r bedd,
palmantodd ffordd o'r ddaear
yn awr i ganol hedd.

Y mae ef heddiw'n eistedd
ar ei orseddfainc fawr,
yn Arglwydd ac yn Geidwad
i weiniaid gwael y llawr;
ei hun mae'n llywodraethu
y dyfnder mawr a'r nef,
a therfyn eitha'r ddaear
sydd dan ei ofal ef.

(WILLIAM WILLIAMS, 1717–91)

Darllen: Salm 22:1–5, 6–11

Dirmyg a ffydd

Fy Nuw, fy Nuw, pam yr wyt wedi fy ngadael,
ac yn cadw draw rhag fy ngwaredu ac oddi wrth eiriau fy ngriddfan?

²O fy Nuw, gwaeddaf arnat liw dydd, ond nid wyt yn ateb,
a'r nos, ond ni chaf lonyddwch.

³Eto, yr wyt ti, y Sanctaidd, wedi dy orseddu
yn foliant i Israel.

⁴Nyt ti yr oedd ein hynafiaid yn ymddiried,
yn ymddiried a thithau'n eu gwaredu.

⁵Arnat ti yr oeddent yn gweiddi ac achubwyd hwy,
ynyt ti yr oeddent yn ymddiried ac ni chywilyddiwyd hwy.

⁶Pryfyn wyf fi ac nid dyn,
gwawd a dirmyg i bobl.

⁷Y mae pawb sy'n fy ngweld yn fy ngwatwar,
yn gwneud ystumiau arnaf ac yn ysgwyd pen:

⁸“Rhoes ei achos i’r ARGLWYDD, bydded iddo ef ei achub!

Bydded iddo ef ei waredu, oherwydd y mae’n ei hoffi!”

⁹Ond ti a’ m tynnodd allan o’r groth,

a’ m rhoi ar fronnau fy mam;

¹⁰arnat ti y bwriwyd fi ar fy ngenedigaeth,

ac o groth fy mam ti yw fy Nuw.

¹¹Paid â phellhau oddi wrthyf,

oherwydd y mae fy argyfwng yn agos

ac nid oes neb i’ m cynorthwyo.

Myfyrdod

Er nad yw cyd-destun y salm wreiddiol yn amlwg i ni heddiw, nid yw’n ormodedd i ni ddweud bod Cristnogion ar hyd y canrifoedd, o’r cychwyn cyntaf, wedi deall mai cyfeirio mae’r salm at Iesu Grist.

Clywn bobl o bryd i’w gilydd yn dweud bod y geiriau cyntaf, “Fy Nuw, Fy Nuw, paham y’ m gadewaist,” geiriau a lefarodd Iesu ar y groes, yn gri o anobaith llwyr. Person wedi ei adael yw’r gweddiwr. Fel pe bai ei Dad wedi cefnu arno. Profiad tebyg i fod o dan felltith.

Ond hoffwn ddangos tri pheth pwysig wrth i ni edrych ar y salm.

Yn gyntaf – i bob un person sy’n ymwybodol o’i bellter oddi wrth Dduw, sydd wedi cefnu ar Dduw, sy’n gofidio am ei fod yn teimlo fel pe bai Duw wedi cefnu arnynt, gallwn ddiolch bod ein Gwaredwr wedi ei brofi, fel ni, a’i fod yn medru cydymdeimlo a’n gwaredu yn awr ein hunigrwydd ac arswyd ein tranc.

Yn ail – os edrychwn ar y salm ar ei hyd, er ei bod yn dechrau mewn anobaith, mae’n gorffen mewn hyder a gorfoledd. Ac o graffu’n fanwl ar y ddau ddarlleniad cyntaf ar ddechrau’r salm gwelwn fod y ddwy adran yn dechrau gyda chŵyn, ac ar yr un pryd mae’n llawn o hyder ac ymddiriedaeth. Os oes amser gennych, cyfrwch faint o weithiau y defnyddir y gair ‘Fy’ a ‘Duw/ ti’.

Yn drydydd – sylwch yn y salm bod yr un sy’n dioddef yn amlwg yn dioddef am ei fod yn ffyddlon i Dduw (22:7–8). Os edrychwn ar Efengyl Mathew 27:29 a 43, gwelwn fod Iesu’n cael ei wawdio yn union am ei fod yn ffyddlon i Dduw.

Beth am oedi am foment i feddwl, i ailddarllen ac i ryfeddu at ddirmyg, poen a ffydd y dioddefwr a bod yr Ysgrhythurau’n cael eu cyflawni yn Iesu Grist?

Darlleniadau

Mathew 27:33–7

³³Daethant i le a elwir Golgotha, hynny yw, “Lle Penglog”, ³⁴ac yno rhoesant iddo i’w yfed win wedi ei gymysgu â bustl, ond ar ôl iddo ei brofi, gwrthododd ei yfed. ³⁵Croeshoeliasant

ef, ac yna rhanasant ei ddillad, gan fwrw coelbren, ³⁶ac eisteddasant yno i'w wyllo. ³⁷Uwch ei ben gosodwyd y cyhuddiad yn ei erbyn mewn ysgrifen: "Hwn yw Iesu, Brenin yr Iddewon."

Salm 22:12–21

¹²Y mae gyr o deirw o'm cwmpas,
rhai cryfion o Basan yn cau amdanaf;
¹³y maent yn agor eu safn amdanaf
fel llew yn rheibio a rhuo.
¹⁴Yr wyf wedi fy nihysbyddu fel dŵr,
a'm holl esgyrn yn ymddatod;
y mae fy nghalon fel cwyr,
ac yn toddi o'm mewn;
¹⁵y mae fy ngheg yn sych fel cragen
a'm tafod yn glynu wrth daflod fy ngenau;
yr wyt wedi fy mwrw i lwch marwolaeth.
¹⁶Y mae cŵn o'm hamgylch,
haid o ddihirod yn cau amdanaf;
y maent yn trywanu fy nwylo a'm traed.
¹⁷Gallaf gyfrif pob un o'm hesgyrn,
ac y maent hwythau'n edrych ac yn rhythu arnaf.
¹⁸Y maent yn rhannu fy nillad yn eu mysg,
ac yn bwrw coelbren ar fy ngwisg.
¹⁹Ond ti, ARGLWYDD, paid â sefyll draw;
O fy nerth, brysia i'm cynorthwyo.
²⁰Gwared fi rhag y cleddyf,
a'm hunig fywyd o afael y cŵn.
²¹Achub fi o safn y llew,
a'm bywyd tlawd rhag cyrn yr ychen gwyllt.

Gweddi am Gymorth

Gadewch i ni graffu ar dri pheth.

Yn gyntaf – mae'r dioddefwr yn sôn am elynion oddi allan sy'n ei boenydio a'i ladd (adnodau 7, 8, 12, 13, 16). Sylwch faint o weithiau mae'n dweud "y maent".

Yn ail – mae'n cyfeirio at ei wendid corfforol ei hun a maint ei ddiodefaint. Y mae'r dioddefwr yn gwbl effro i'r hyn sy'n digwydd iddo. Mae'r diodefaint yn real iawn (adnodau 6, 14, 15, 16, 17).

Yn drydydd – mae ffydd y dioddefwr yn gwbl amlwg. Mae'n gweddio am arbediad ac am i Dduw ymyrryd yn ei ddiodefaint (adnodau 19, 20, 21).

Gweddi

Arglwydd Iesu Grist, dioddefaist “gosbedigaeth ein heddwch ni” a daethost yn Oen Duw, yr hwn sy’n tynnu ymaith bechod y byd. Credwn, gyda rhyfeddod, rywsut, rywfodd, mewn ffordd na allwn ei hamgyffred na’i chrebwyll yn llawn bod Duw yng Nghrist yn cymodi’r byd ag ef ei hun. Dy fod Ti, yr Oen di-fai, rywsut wedi dod yn un â phechod drosom ni.

Arglwydd, allwn ni ddim deall maint dy loes, na’r hoelion na’r goron ddrain a ddioddefaist drosom ni. Ond, annwyl Arglwydd Iesu, boed grym dy gariad pur, yn torri nghalon galed, wrth feddwl am dy gur. Amen.

Yn awr os ydych am oedi am foment i ailddarllen a myfyrio, dyma’r lle i wneud hynny.

Darllen: Salm 22: 22–31

²²Fe gyhoeddaf dy enw i’r cydnabod,

a’th foli yng nghanol y gynulleidfa:

²³“Molwch ef, chwi sy’n ofni’r ARGLWYDD;

rhowch anrhydedd iddo, holl dylwyth Jacob;

ofnwch ef, holl dylwyth Israel.

²⁴Oherwydd ni ddirmygodd na diystyru

gorthrwm y gorthrymedig;

ni chuddiodd ei wyneb oddi wrtho,

ond gwrando arno pan lefodd.”

²⁵Oddi wrthyt ti y daw fy mawl yn y gynulleidfa fawr,

a thalaf fy addunedau yng ngŵydd y rhai sy’n ei ofni.

²⁶Bydd yr anghenus yn bwyta, ac yn cael digon,

a’r rhai sy’n ceisio’r ARGLWYDD yn ei foli.

Bydded i’w calonnau fyw byth!

²⁷Bydd holl gyrrau’r ddaear yn cofio

ac yn dychwelyd at yr ARGLWYDD,

a holl dylwythau’r cenedloedd

yn ymgrymu o’i flaen.

²⁸Oherwydd i’r ARGLWYDD y perthyn brenhiniaeth,

ac ef sy’n llywodraethu dros y cenedloedd.

²⁹Sut y gall y rhai sy’n cysgu yn y ddaear blygu iddo ef,

a’r rhai sy’n disgyn i’r llwch ymgrymu o’i flaen?

Ond byddaf fi fyw iddo ef,

³⁰a bydd fy mhlant yn ei wasanaethu;

dywedir am yr ARGLWYDD wrth genedlaethau i ddod,

³¹a chyhoeddi ei gyfiawnder wrth bobl heb eu geni,

mai ef a fu’n gweithredu.

Moliant am fuddugoliaeth a gobaith am fywyd

Nodwn gyda'n gilydd:

Yn gyntaf – bod yr un sydd wedi dioddef yn awr yn llawenhau am na ddirmygwyd “gorthrwm y gorthrymedig” (adnodau 22–4). Nid dibwys gan yr Arglwydd ddioddefaint ei was. Nid angau a'i trechodd. Wedi'r dioddefaint, bydd y dioddefwr yn “cyhoeddi dy enw” ac yn gwahodd pobl i roi anrhydedd i'r Arglwydd. Nid gan angau ond gan rym yr atgyfodiad mae'r gallu mawr.

Yn ail – bydd eraill, heblaw'r dioddefwr, sef y rhai sy'n ceisio'r Arglwydd, yn llawenhau, yn moli'r Arglwydd; bydd eu calonnau'n cael byw. Fel y gorchfygodd y gwas oedd yn dioddef, felly bydd yr anghenus, y newynog a'r tlawd yn cael eu digoni yn Nuw.

Yn drydydd – nid profiad preifat i griw bach mo'r datganiad o fawl. Yn hytrach, mae'n addewid llawn gobaith: “Bydd holl gyrrau'r ddaear yn cofio ac yn dychwelyd.” Bydd ei frenhiniaeth yn cael ei chydabod a'i hadnabod ar draws y byd yn grwn. Mae ei fuddugoliaeth “o wlad i wlad yn dweud yn awr fod bore dydd gerllaw”.

Yn bedwerydd – nid ar gyfer un oes yn Jerwsalem mae'r addewidion. Nid yn y byd hwn yn unig mae manteision ffydd yn y Crist dioddefus. Na, byddant hwythau hefyd – y rhai “sy'n cysgu yn y ddaear” – â'r hawl a'r gobaith y cânt hwythau hefyd fyw ynddo ef a byw iddo ef. A chyhoeddir ei fuddugoliaeth am genedlaethau i ddod.

Ni chyflawnwyd y broffwydoliaeth mewn unrhyw berson, unrhyw Arglwydd, brenin, ymerawdwr neu deyrn. Cyflawnwyd gobaith y salmydd o'r ymdeimlad o gael ei wahanu oddi wrth ei Dad, hyd ei atgyfodiad a'i ddyrchafiad a'i frenhiniaeth dros y byd i gyd yn – a thrwy – yr Arglwydd Iesu Grist.

O f'enaid, gwêl addasrwydd
y person dwyfol hwn,
dy fywyd mentra arno
a bwrw arno'th bwn;
mae'n ddyn i gydymdeimlo
â'th holl wendidau i gyd,
mae'n Dduw i gario'r orsedd
ar ddiafol, cnawd a byd.

Gweddï

Arglwydd, rydyn ni'n byw mewn oes, mewn cymdeithas lle cawsom ein hynysu oddi wrth ein gilydd. Ond nid oes unrhyw radd o debygrwydd rhwng y pellter a fodolodd rhyngot a'th Fab ar Galfaria. Diolch dy fod wedi wynebu ein pellter ni, ein gwrthryfel ni, ein prynedigaeth ni, ein gelyniaeth ni, ein gwaethaf ni fel hil ar Galfaria.

Ac yno, yn awr dy ing, diolch dy fod, mewn cariad perffaith, arswydus wedi gweddïo dros y rhai oedd yn dy gasáu gynt: “Dad, maddau iddynt.”
Arglwydd, maddau i minnau hefyd.

Dydw i ddim yn deall chwaith faint fy ngwrthryfel na'm casineb innau tuag atat,
na chwaith fy mharodrwydd i ymladd yn erbyn dy hawl i fod yn Arglwydd.

Gweddïwn dros y rhai sydd wedi eu hynysu yn y cyfnod hwn.

Gweddïwn dros gleifion sydd wedi eu hynysu, yr oedrannus, y galarus, y dioddefus, yr unig.

Gweddïwn dros arweinwyr y gwledydd, dros y rhai sy'n gweithio i'n cadw'n iach,

dros y rhai sy'n sicrhau bod bwyd ar ein byrddau o hyd,

dros bobl busnes sy'n gwegian dan amgylchiadau anodd.

Arglwydd, trugarha wrthym.

Arglwydd, gweddïwn dros ein gwlad, ein pobl, ein broydd.

Gweddïwn y cawn weld eto ddaioni yr Arglwydd yn nhir y rhai byw.

Rho nerth i'th Eglwys dy geisio.

Rho nerth i'th Eglwys dyfu mewn ffyddlondeb, mewn dealltwriaeth, mewn ffydd.

Arglwydd, clyw ni er mwyn Iesu Grist, Amen.

Emyn 495: 'Wrth edrych, Iesu, ar dy groes'

Wrth edrych, Iesu, ar dy groes,

a meddwl dyfnder d'angau loes,

pryd hyn 'rwyf yn dibrisio'r byd

a'r holl ogoniant sy ynddo i gyd.

N'ad im ymddiried tra bwyf byw

ond yn dy angau di, fy Nuw;

dy boenau di a'th farwol glwy'

gaiff fod yn ymffrost imi mwy.

Dyma lle'r ydoedd ar brynhawn

rasusau yn disgleirio'n llawn:

mil o rinweddau yn gytûn

yn prynu'r gwrthgiledig ddyn.

Poen a llawenydd dan y loes,

tristwch a chariad ar y groes;

ble bu rhinweddau fel y rhain

erioed o'r blaen dan goron ddrain?

Myfi aberthaf er dy glod

bob eilun sydd o dan y rhod,

ac wrth fyfyrion ar dy waed

fe gwyp pob delw dan fy nhraed.

(ISAAC WATTS, 1674–1748

efel. WILLIAM WILLIAMS, 1717-91)

Y Fendith